

**COFNODION**

**Dyddiad** 16 Tachwedd 01  
**Amser** 9.30am – 12.45pm  
**Lleoliad** Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru, Wreccsam

**Presenoldeb**

**Aelodau**

Alun Cairns  
Chris Chapman  
Glyn Davies  
Mike German  
John Griffiths  
Christine Gwyther (Cadeirydd)  
Alison Halford  
Tom Middlehurst  
Janet Ryder  
Dafydd Wigley

**Etholaeth**

Gorllewin De Cymru  
Cwm Cynon  
Canolbarth a Gorllewin Cymru  
Dwyrain De Cymru  
Dwyrain Casnewydd  
Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro  
Delyn  
Alyn a Glannau Dyfrdwy  
Gogledd Cymru  
Caernarfon

**Swyddogion**

Emyr Roberts

Yr Is-adran Cynllunio Economaidd

**Yn Bresennol**

Philip Evans	Cadeirydd, Bwrdd Croeso Cymru
Jonathan Jones	Prif Weithredwr, Bwrdd Croeso Cymru
Steve Webb	Cyfarwyddwr, Ymchwil a Chynllunio Corfforaethol Bwrdd Croeso Cymru
Hywel Evans	Prif Weithredwr, Menter a Busnes
J. Berwyn Rowlands	Prif Weithredwr, Sgrin - Asiantaeth Cyfryngau Cymru
Hugh Edwin Jones	Comisiynydd Ffilm Gogledd Cymru

**Ysgrifenyddiaeth**

## Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Brian Hancock. Yr oedd Tom Middlehurst yn dirprwyo dros Ron Davies, Janet Ryder dros Phil Williams a John Griffiths dros Rhodri Morgan.

### Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

1. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r ymwelwyr i'r cyfarfod sef y cyfarfod ffurfiol cyntaf o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a gynhaliwyd yng ngogledd Cymru. Dywedodd ei bod yn gobeithio y byddai'n bosibl cynnal cyfarfodydd y tu allan i Gaerdydd tua dwywaith y flwyddyn.
2. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther a Dafydd Wigley.
3. Mynegwyd peth pryder ynghylch absenoldeb y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Atgoffaodd y Cadeirydd yr aelodau fod y Gweinidog wedi ei holi'n llawn ddydd Mercher a bod John Griffiths yn bresennol i gyfleu pryderon y Pwyllgor i'r Llywodraeth. Mynegodd rhai aelodau ofid bod y cyfarfod wedi dechrau ar y nodyn hwn.

### Eitem 2: Bwrdd Croeso Cymru – Cynllun Corfforaethol

1. Cyflwynodd Philip Evans y drafodaeth gan dynnu sylw at y digwyddiadau a oedd wedi newid y diwydiant twristiaeth yn sylfaenol yn y flwyddyn ddiwethaf. Diolchodd i'r Cynulliad am ei gefnogaeth i Fwrdd Croeso Cymru, yn enwedig mewn perthynas â'r cynnydd mewn cyllid dros y flwyddyn ddiwethaf.
2. Dywedodd fod y gostyngiad cyffredinol mewn incwm twristiaeth tua 15 y cant a heb ariannu brwdfrydig y Cynulliad a'r safbwynt marchnata ymosodol a gymerwyd gan Fwrdd Croeso Cymru buasai hyn yn llawer gwaeth. Nododd rai o'r mentrau a ddefnyddiwyd i ymladd effeithiau clwy'r traed a'r genau a dywedodd y byddai ar Fwrdd Croeso Cymru angen hyblygrwydd o bosibl gyda rhywfaint o'r cyllid. Er bod y rhan fwyaf o'r cyllid wedi ei ddyrannu, mae'n bosibl y bydd peth o'r gwariant yn mynd ymlaen i'r flwyddyn nesaf.
3. Cadarnhaodd fod y Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol ar waith a bod Awdurdodau Lleol, Bwrdd Croeso Cymru a'r diwydiant yn gweithio gyda'i gilydd ym mhob un o'r pedwar rhanbarth. Ychwanegodd fod y prosiectau buddsoddi cyfalaf yn cyrraedd y nod ac y byddai Bwrdd Croeso Cymru yn defnyddio'r cwbl o'i gyllid Amcan 1. Yr oedd y costau o dan reolaeth a gobeithient gyflawni cyfanswm eu gwariant marchnata erbyn diwedd y flwyddyn.
4. Dywedodd nad oedd Bwrdd Croeso Cymru yn ffyddiog y gallai gyflawni'r targed o 10 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth os oedd y cynnyrch mewnwladol

crynswth cyffredinol yn codi. Teimlai fod cyfradd twf flynyddol o 6 neu 7 y cant, a geir yn Cymru ar ei Hennill, yn fwy realistig. Wrth derfynu dywedodd fod angen cynhyrchion 'o safon fyd-eang' er mwyn i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru fod yn llwyddiannus a hyn oedd y neges yr oedd Bwrdd Croeso Cymru yn gobeithio ei chyfleu i'r darparwyr.

5. Yn y drafodaeth diolchodd yr aelodau i Fwrdd Croeso Cymru am eu gwaith caled parhaus yn yr hyn a fu'n flwyddyn anodd. Yr oeddent yn falch o'u gweld yn gweithio'n agos â Masnach Cymru Ryngwladol a'r WDA ac ymddangosai fod y gwaith a wnaethpwyd gan yr asiantaethau wedi arwain at ddelwedd gadarnhaol iawn o Gymru dramor.
6. Er bod yr aelodau'n croesawu llwyddiant y cais am gystadleuaeth Cwpan Ryder, mynegwyd peth pryder na châi'r manteision eu lledaenu ledled Cymru. Dywedodd Bwrdd Croeso Cymru ei bod yn bwysig peidio ag ymdroi gydag unrhyw faterion De/Gogledd cul ond gweld y manteision a oedd ar gael ledled Cymru. Ychwanegasant y byddai cystadleuaeth Cwpan Ryder yn hybu ymwybyddiaeth o gyfleusterau golffio ledled Cymru a byddent yn siarad â chlybiau llai i'w helpu i fanteisio ar hyn. Er bod y cyrsiau a oedd i'w defnyddio yn y twrnamaint wedi eu dethol gan Gymdeithas y Golffwyr Proffesiynol ac yr oeddent oll yn ne Cymru, nodwyd bod y Gystadleuaeth Agored i Chwaraewyr Hyn, a oedd yn rhan o broses Cwpan Ryder, yn cael ei chynnal yn Harlech.
7. Cadarnhaodd Bwrdd Croeso Cymru y byddai eu System Rheoli Cyrchfan, a fyddai'n caniatáu archebu ar-lein, ar gael ym Mawrth y flwyddyn nesaf ac y byddai'n gwednewid y 'cynnyrch' Cymreig. Gofynnodd yr aelodau am gael arddangosiad o'r system ar ôl ei rhoi ar waith.
8. Mynegwyd pryder nad oedd y ffigurau am swyddi yn gwahaniaethu rhwng y rhai a grewyd a'r rhai a ddiogelwyd a gofynnwyd i Fwrdd Croeso Cymru gyflwyno ffigurau fel hynny yn y dyfodol. Yr oedd pryder bod y targed pennawd o greu 22,000 o swyddi yn rhy uchelgeisiol ond yr oedd Bwrdd Croeso Cymru yn ffyddiog y byddid yn cyflawni hyn.
9. Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at y newidiadau diweddar mewn gweithgareddau ac mewn ymagweddau oddi mewn i Fwrdd Croeso Cymru a'r angen am hyblygrwydd mewn diwydiant a oedd yn newid yn barhaus. Ychwanegodd y byddai adnoddau bob amser yn ddarostyngedig i flaenoriaethau ond bod y cyllid i dwristiaeth wedi bod yn helaeth ac wedi ei ddefnyddio'n dda.

### **Eitem 3: Adolygiad o'r Iaith Gymraeg**

1. Cyflwynodd Hywel Evans y drafodaeth gan ddisgrifio'r materion yr oedd Menter a Busnes yn eu hystyried yn bwysig wrth drafod y Gymraeg a'i heffeithiau ar ddatblygu economaidd. Dywedodd ei bod yn bwysig bod gweithgareddau iaith a datblygu economaidd yn cael eu cysylltu mewn modd gwirioneddol. I wneud hynny'n effeithiol yr oedd angen gweithio oddi mewn i'r holl asiantaethau datblygu economaidd. Yr oedd angen gweld unrhyw waith yn y maes hwn yn broses dymor

- hir. Yr oedd angen newid mawr i symud yr iaith i graidd eu gweithgareddau.
2. Ychwanegodd fod profiad Menter a Busnes wedi bod yn werthfawr ond yr oedd angen bwrw ymlaen â gwaith pellach yn y maes hwn drwy'r asiantaethau datblygu economaidd. Yr oedd angen cyflwyno atebion ymarferol fel ffynhonnell gwerth ychwanegol yn hytrach nag ystyried integreiddio'r iaith yn gost. Yr oedd perygl hefyd o drin iaith fel problem cyfle cyfartal yn hytrach nag fel cyfle.
  3. Yn y drafodaeth dywedodd yr aelodau mai'r prif fater oedd gwneud dwyieithrwydd yn rhwydd ac yn naturiol. Cyfeiriwyd at y papur oddi wrth Menter a Busnes a dywedodd yr aelodau y byddai o gymorth mewn cyflwyniadau yn y dyfodol os gwahaniaethid rhwng swyddi a ddiogelwyd a swyddi a grewyd.
  4. Teimlai rhai aelodau fod cyfle mawr yn bodoli yng Nghymru i ddatblygu cyfleusterau cyfieithu fel sector busnes, gan ddarparu hyfforddiant a hyd yn oed allforio gwasanaethau cyfieithu yn y dyfodol ar gyfer ieithoedd eraill. Cytunodd Hywel Evans fod gwasanaethau cyfieithu yn cynnig cyfleoedd datblygu economaidd mawr ond bod angen dull gweithredu rhagweithiol bwriadol yn y maes hwn.
  5. Nododd botensial yr iaith i dwristiaeth a dywedodd fod Bwrdd Croeso Cymru wedi gweithio'n frwdfrydig â hwy i ddatblygu hyn ymhellach.
  6. Mynegodd sawl aelod bryderon y byddai ymyrryd yn y sector economaidd yn mygu'r ysbryd entrepreneuriaidd. Dywedodd Hywel Evans fod mater cydbwysedd yn y maes hwn yn bwysig ac yr oedd angen gwybod pa bryd i ymyrryd a pha bryd i adael i rywbeth fynd.
  7. Amlinellodd Hywel Evans y tri chynnig yr oeddent wedi eu hawgrymu yn eu cyflwyniad i adolygiad y Pwyllgor Diwylliant. Dywedodd ei fod yn teimlo mai'r dewis gorau oedd y trydydd a oedd yn cynnig mecanwaith ar wahân a ariannir ar y cyd gan yr asiantaethau datblygu economaidd. Yr oedd cefnogaeth gryf gan yr aelodau i beidio â chreu unrhyw gorff newydd i edrych ar faterion ieithyddol.
  8. Wrth grynhoi'r drafodaeth cyfeiriodd y Cadeirydd at yr angen i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor Diwylliant ac awgrymodd y dylai'r Clerc ddarparu ymateb drafft y gallai'r aelodau ei drafod yn y cyfarfod nesaf. **[Cam Gweithredu: Y Clerc]**

#### **Eitem 4: Y diwydiant ffilm yng Nghymru**

1. Cyflwynodd Berwyn Rowlands yr eitem gan ddisgrifio gwaith Sgrin a dywedodd, er bod y rhan fwyaf o'u trafodaethau gyda'r Cynulliad hyd hynny wedi bod â'r Gweinidog dros Ddiwylliant, fod yr agweddau economaidd ar eu gwaith gyn bwysiced â'r rhai diwylliannol.
2. Dywedodd Hugh Edwin Jones fod gwaith y comisiynwyr ffilm yn pontio rhwng y diwydiannau diwylliannol a'r economïau lleol ac mai busnesau bach a chanolig eu maint oedd y prif fuddiolwyr pan ddeuai ffilm i ardal.
3. Holodd yr aelodau am golledion Sgrin ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf a

chadarnhaodd Berwyn Rowlands fod y bwrdd yn fodlon ar hyn gan ei fod yn adlewyrchu eu penderfyniad i sicrhau llwyddiant rhai prosiectau penodol. Fe'i hystyrid yn fuddsoddiad ac yr oeddent yn disgwyl creu elw yn y flwyddyn a ddeuai i ben ar 31 Mawrth 2002. Cadarnhaodd hefyd y byddai cyllid oddi wrth y WDA i gynnal y partneriaethau rhanbarthol yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y rhanbarthau ac y câi ei ddefnyddio i gynnal swyddogaethau canolog gan gynnwys marchnata.

4.

5. Ar destun cyllid Amcan 1 dywedodd eu bod yn gweithio ar y pryd â Cyllid Cymru a gobeithient wneud cais llwyddiannus cyn hir. Dywedodd Hugh Edwin Jones fod y Comisiynau Ffilm wedi ei chael yn anodd canfod troedle i'w gwaith oddi mewn i Amcan 1 ond yr oeddent yn parhau i weithio'n agos ar hyn gyda'r partneriaethau rhanbarthol yng ngogledd Cymru.

6. Holodd sawl aelod sut y gellid denu cwmnïau ffilm i ogledd Cymru. Ymatebodd y cyflwynwyr gan ddweud os nad yw anghenion cwmni cynhyrchu yn ymwneud â lleoliad penodol ei bod yn debygol y byddant yn ffilmio yng Nghaerdydd neu Abertawe. Er mwyn denu cynhyrchiad i ogledd Cymru yr oedd yn rhaid cael anogaethau heblaw am ansawdd bywyd, golygfeydd, ac yn y blaen. Ychwanegasant fod creu sector cynhenid tymor hir yn bwysicach yn ôl pob tebyg. Dywedodd Hugh Edwin Jones fod Comisiwn Ffilm Gogledd Cymru yn bwriadu cael swyddfa yn Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru lle'r oedd cyfoeth o ddoniau a chefnogaeth fawr i'r diwydiant gan Bennaeth newydd y coleg. Yr oedd Sgrin hefyd yn lansio gwyl ffilmiau newydd yn Aberystwyth ym Mawrth 2002 a fyddai'n arddangos y doniau sydd ar gael yng Nghymru.

7. Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig hybu gwneud ffilmiau a fyddai'n fasnachol ac yn addas i'w hallforio, yn hytrach na chanolbwyntio ar ffilmiau a fyddai'n apelio at gynulleidfa Gymreig yn unig. Gwnaethpwyd sylw hefyd fod argaeledd sgriptiau yn holl bwysig i ddatblygiad y diwydiant a dywedodd Berwyn Rowlands y byddai sefydlu'r Gronfa Ffilm arfaethedig yn golygu y gellid datblygu'r maes hwn ymhellach, gyda rhywfaint o arian loteri o bosibl.

## **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**